**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JB/0243/25
At:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Heddluoedd yng Nghymru
Copïau at:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

30 Ionawr 2025

Annwyl Gomisiynwyr

**Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer 2025-26**

Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu o elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer heddluoedd yng Nghymru yn 2025-26, yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd holl heddluoedd Cymru yn derbyn cynnydd o 3.705% mewn cyllid craidd yn 2024-25.

Mae **Atodiad A** yn cynnwys manylion y Setliad Terfynol ar gyfer pob heddlu yng Nghymru. Nid yw'r dyraniadau cyffredinol ar gyfer yr heddluoedd unigol wedi newid ers y Setliad Dros Dro.

Bydd Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2025-26 (Y Setliad Terfynol – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) a gyhoeddwyd heddiw yn destun dadl yn y Senedd ar 4 Mawrth 2025.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r llythyr hwn, cysylltwch â'r Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol drwy LGFPSettlement@llyw.cymru.

Yn gywir

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A: Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer Cymru, 2025-26

### Tabl 1a: Asesiad o Wariant Safonol (£m)[1]

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 37.049 | 37.492 | 33.904 | 34.368 | 34.936 | 35.425 |
| Gwent | 55.236 | 55.896 | 50.547 | 51.239 | 51.996 | 52.724 |
| Gogledd Cymru | 53.377 | 54.012 | 48.845 | 49.530 | 50.387 | 51.106 |
| De Cymru | 128.757 | 130.295 | 117.826 | 119.425 | 120.772 | 122.450 |
| Cyfanswm | 274.419 | 277.694 | 251.122 | 254.563 | 258.090 | 261.706 |

### Tabl 1b: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)[1]

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 13.150 | 13.030 | 8.667 | 8.492 | 8.413 | 8.099 |
| Gwent | 31.790 | 31.857 | 25.939 | 26.069 | 26.196 | 26.315 |
| Gogledd Cymru | 22.614 | 22.523 | 16.513 | 16.334 | 16.361 | 16.101 |
| De Cymru | 75.845 | 75.989 | 62.352 | 62.575 | 62.501 | 62.955 |
| Cyfanswm | 143.400 | 143.400 | 113.470 | 113.470 | 113.470 | 113.470 |

### Tabl 1c: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)[1,2,3,4]

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 40.967 | 44.497 | 52.272 | 54.996 | 56.379 | 59.093 |
| Gwent | 46.660 | 51.539 | 62.401 | 65.967 | 67.730 | 71.092 |
| Gogledd Cymru | 56.101 | 61.153 | 72.125 | 76.011 | 77.882 | 81.634 |
| De Cymru | 96.895 | 107.639 | 132.165 | 140.078 | 144.315 | 151.524 |
| Cyfanswm | 240.622 | 264.828 | 318.964 | 337.052 | 346.307 | 363.343 |

### Tabl 1d: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)[1,2,3,4]

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 54.116 | 57.528 | 60.939 | 63.488 | 64.792 | 67.193 |
| Gwent | 78.451 | 83.396 | 88.341 | 92.036 | 93.926 | 97.407 |
| Gogledd Cymru | 78.715 | 83.677 | 88.638 | 92.346 | 94.243 | 97.735 |
| De Cymru | 172.740 | 183.629 | 194.517 | 202.653 | 206.816 | 214.479 |
| Cyfanswm | 384.022 | 408.228 | 432.434 | 450.522 | 459.777 | 476.813 |

### Tabl 1e: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (%)

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% | 3.705% |
| Gwent | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% | 3.705% |
| Gogledd Cymru | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% | 3.705% |
| De Cymru | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% | 3.705% |
| Cyfanswm | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% | 3.705% |

Nodiadau:

1. Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015, bu'r Swyddfa Gartref yn trosglwyddo cyllid yn flynyddol i Lywodraeth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r cyfraniad y cytunwyd arno ar ei chyfer at gyllid yr heddlu yng Nghymru. O 2022-23 ymlaen, ni chaiff y cyllid ychwanegol hwn ei drosglwyddo mwyach. Yn hytrach, y Swyddfa Gartref sy'n ei ddarparu drwy Grant yr Heddlu a'r Grant Atodol. O ganlyniad i hyn, mae cyfraniad Llywodraeth Cymru at blismona yn gostwng £29.93m o 2022-23. Newid gweinyddol yn unig yw hwn, ac nid yw'n golygu unrhyw newid yn y cyllid cyffredinol i unrhyw Heddlu.

2. Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 o Adroddiad Grant yr Heddlu sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' ac 'Ychwanegu Rheol 1' (colofnau a a b) plws swm y 'cyllid gwaelodol' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau sydd ar gael.

3. Dangosir y ffigurau ar gyfer 2025-26 cyn yr addasiad a wneir ar gyfer trosglwyddo cyllid y Gangen Arbennig, fel y nodir ym mharagraff 4.8 o Adroddiad Grant yr Heddlu.

4. Mae ffigurau ar gyfer 2023-24 wedi'u hailddatgan i gynnwys y cyllid yn ystod y flwyddyn a ddyfarnwyd i heddluoedd ar gyfer cytundeb cyflog 2023-24.